24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Please contact us in Welsh or English.

Cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans
Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân
Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SP

**Cyfeirnod:** 1038A2019-20

**Dyddiad cyflwyno: 19** Chwefror 2019

Annwyl Gynghorydd Rees-Evans

# Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 2016-17

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodiadau a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, ac adolygu hyn yn gyson.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau; a

- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 11 Rhagfyr 2018 rhoddais:

- farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2016-17 Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân; a
- barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2016-17 yr Awdurdod.

Mae fy adroddiad archwilio wedi ei gynnwys ar dudalennau 9 i 11 yn y Datganiad Cyfrifon archwiliedig[1]. Cyn imi ardystio datganiadau cyfrifyddu 2016-17, ar 10 Rhagfyr 2018 adroddwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'm harchwiliad i aelodau'r Awdurdod drwy fy Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol[2]. Yn ogystal ag adrodd fy mwriad i roi barn ddiamod a nodi'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol, adroddais ddau fater sylweddol hefyd fel a ganlyn:

- fe'm rhwystrwyd rhag cau'r archwiliad oherwydd anghyfreithlondeb posibl taliadau a wnaed o dan gynllun pensiwn y diffoddwyr tân; ac
- roedd cofnodion rhai elfennau o drafodaeth 'yn y dirgel' (sesiwn breifat) ynghylch eitem gyfrinachol yn annigonol.

Cymeradwywyd y cynigion i ddatrys mater cynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân ar 10 Rhagfyr 2018, ac rwyf bellach wedi cael dogfennau rhagorol. Rwyf yn fodlon ar ymagwedd yr Awdurdod ac ar 5 Chwefror, cyflwynais fy marn eto, gan gynnwys tystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad datganiadau cyfrifyddu 2016-17 yn gyflawn.

## Rwyf yn fodlon bod yr Awdurdod wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau cyfrifyddu yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ers imi gyflwyno Llythyr Archwilio Blynyddol 2015-16 ym mis Gorffennaf 2018, o dan y Mesur, rwyf wedi cyhoeddi fy Adroddiad Gwella Blynyddol 2017-18[3].

Yn seiliedig ar ganlyniadau fy ngwaith, rwyf yn fodlon bod yr Awdurdod wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau ar gyfer 2016-17.

---


[1] http://www.mawwfire.gov.uk/SiteCollectionDocuments/Finance/Statement-of-Accounts-2016-17.pdf

[2] http://www.mawwfire.gov.uk/SiteCollectionDocuments/Fire_Authority_Committees/FA/2018/10.12.18/AgendaItem5.pdf

[3] http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/mwfra_air_welsh.PDF

Y ffi archwilio ariannol terfynol ar gyfer 2016-17 yw £59,781, sydd £698 yn fwy na'r amcangyfrif a fynegais ichi. Mae’r ffi derfynol yn cynnwys ffioedd cyfreithiol o £3,050[4], sef traean o gyfran yr Awdurdod (bydd y biliau am y cyfrannau eraill yn cael eu hanfon i Awdurdodau Tân Gogledd a De Cymru) o'r costau cyfreithiol allanol a gawsom wrth gael cyngor cyfreithiol ar faterion sy'n ymwneud â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.

Yn gywir



Mark Jones
**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc. Chris Davies, Prif Swyddog Tân
Chris Moore, Swyddog Adran 151
Kevin Jones, Cyfarwyddwr Adnoddau

[4] Codir TAW ar y ffioedd cyfreithiol, sydd wedi ei chynnwys yn y £3,050.